

# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor  
**sir ddinbych**  
**denbighshire**  
County Council



At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio  
Cymunedau

Dyddiad: 27 Ionawr 2017

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 2 CHWEFROR 2017 am 9.30 am yn YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHIN.**

**NODWCH OS GWELWCH YN DDA: FE FYDD YNA SESIWN BRIFFIO CYN Y  
CYFARFOD AR GYFER AELODAU'R PWYLLGOR AM 9.00 A.M.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## AGENDA

### **RHAN 1 – MAE GWAHODDIAD I'R WASG A'R CYHOEDD I FNYNCHU'R RHAN YMA O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYNS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2016 (copi ynghlwm).

## **5 COMISIINYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Trafod gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ei weledigaeth a'i flaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth.

**9.35 a.m. – 10.15 a.m.**

## **6 POLISI DRAFFT CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL SIR DDINBYCH** (Tudalennau 15 - 44)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg (copi ynghlwm) yn diweddar u'r aelodau ar yr adolygiad o Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Sir Ddinbych a chyflwyno'r polisi drafft newydd er mwyn i aelodau ei ystyried cyn ymgynghori gyda rhanddeiliaid.

**10.15 a.m. – 10.45 a.m.**

~~~~~ EGWYL (10.45 a.m. – 11.00 a.m.) ~~~~~

## **7 YMDDIRIEDOLAETH GWASANAETH AMBIWLANS CYMRU**

Derbyn cyflwyniad gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a thrafod gyda nhw y problemau a'r pwysau y mae'r Gwasanaeth yn ei wynebu yn Sir Ddinbych.

**11.00 a.m. – 11.45 a.m.**

## **8 AROLWG PRESWYLWYR CYNGOR SIR DDINBYCH 2017** (Tudalennau 45 - 48)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (copi ynghlwm) yn amlinellu ymagwedd ddiwygiedig i Arolwg Preswylwyr 2017 a cheisio safbwytiau aelodau ar y trefniadau newydd arfaethedig.

**11.45 a.m. – 12.15 p.m.**

## **9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 49 - 66)

I ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwylgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**12.15 p.m.**

## **10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

I dderbyn unrhyw ddiweddarriadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyddau a Grwpiau'r Cyngor.

## **RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

Dim eitemau.

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd)

Rhys Hughes (Is-Gadeirydd)

Brian Blakeley

Anton Sampson

Bill Cowie

David Simmons

Peter Arnold Evans

Cefyn Williams

Martyn Holland

Cheryl Williams

Bob Murray

### **Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 6 yn unig)**

Kathleen Jones

Gareth Williams

John Piper

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd

Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchenog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Eitem Agenda 4

## PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Pwyllgor 1a, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN, Dydd Iau, 15 Rhagfyr 2016 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Bill Cowie, Peter Arnold Evans, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Martyn Holland, Rhys Hughes (Is-Gadeirydd), Bob Murray, David Simmons, Cefyn Williams a/ac Cheryl Williams

Arsylwyr - Cynghorydd Meirick Davies ac Arwel Roberts

Aelodau Arweiniol Cabinet - Cynghorydd David Smith ac Eryl Williams

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democratiaidd (GW), Pennaeth Addysg (KIE), Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau Addysg (IL), Pennaeth Gwasanaethau Priffydd ac Amgylcheddol (TW), Rheolwr Perygl Llifogydd – Gwasanaethau Priffydd ac Amgylcheddol (WH) Rheolwr Datblygu – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (PM), Cydlynnydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ).

Roedd yr Aelod Cyfetholedig Kathy Jones yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y Rhaglen. Mynychodd cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru, Keith Ivens, y cyfarfod ar ôl derbyn gwahoddiad gan y Pwyllgor, ynghylch eitem 6 ar y Rhaglen.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Debra Houghton, John Piper a Gareth Williams

### 2 DATGAN CYSYLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn Eitem Rhif 5.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 27 Hydref, 2016:-

Materion yn codi:-

Codwyd y pwyntiau canlynol mewn perthynas â Thudalennau 14 i 19 – ‘Effaith y cynnydd mewn taliadau parcio ceir ar draws y sir’.

(i) Mewn ymateb i sylw, pe bai Pennaeth Gwasanaeth yn diystyru penderfyniadau a wnaed gan bwylgor archwilio wrth benderfynu ar bolisi dan rymoedd a ddyrannwyd iddo/iddi fel unigolyn, nid oedd yn ddefnydd effeithiol o amser aelodau i drafod y cynigion. Dywedodd y Cadeirydd, gan fod y penderfyniad penodol hwn wedi cael ei gymryd, roedd ‘Penderfyniadau a Ddyrannwyd i'r Swyddog Arweiniol’ bellach yn destun proses debyg i rai Aelod Arweiniol, gyda'r posibilrwydd y gallai Archwilio alw penderfyniad Swyddog Arweiniol i mewn ar gyfer ei archwilio, cyn ei weithredu. Gofynnodd y Pwyllgor i arweiniad ar y broses hon gael ei chylchredeg i aelodau er gwybodaeth.

(ii) Dywedodd y Cyngorydd Martyn Holland fod y datganiad yn y cofnodion yn ymwneud â'r ffaith fod Cyngor Tref yr Wyddgrug yn rhoi cymhorthdal tuag at ffioedd parcio yn yr Wyddgrug yn anghywir. Dywedodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus ei fod wedi cael gwybod fod hyn yn wir o ffynhonnell ddibynadwy. Gofynnodd Aelodau i'r Cydlynydd Archwilio gysylltu â Chlerc Cyngor Tref yr Wyddgrug i ganfod a oedd y Cyngor yn rhoi cymhorthdal tuag at ffioedd parcio yn y dref; a

(iii) roedd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd wedi cwestiynu geiriad penderfyniad (x) ar dudalen 19 ac wedi gofyn iddo gael ei ddiwygio i ddweud “dylid cyflwyno adroddiad cynnydd pellach i'r Pwyllgor ymhen chwe mis er mwyn rhoi diweddariad ar yr argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad A yr adroddiad a gyflwynwyd ar 27 Hydref 2016, ynghyd â'r cynllun rheoli asedau meysydd parcio drafft i gael sylwadau'r aelodau”.

**PENDERFYNWYD:** yn amodol ar ddarparu'r wybodaeth uchod a'r diwygiad, fel y drafftiwyd yn (iii) uchod, dylid cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r trafodion.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 16 Rhan 4 Atodlen 12A Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## RHAN II

### 5 POLISI CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL SIR DDINBYCH

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Kathy Jones, a oedd wedi'i phenodi'n ddiweddar gan yr Eglwys Gatholig i wasanaethu fel ei gynrychiolydd cyfetholedig ar gyfer materion yn ymwneud ag addysg ar y Pwyllgor Archwilio, i'w chyfarfod cyntaf.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg yr adroddiad cyfrinachol (a gylchredwyd yn flaenorol) a ddiweddarodd y Pwyllgor ar yr adolygiad o Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Sir a oedd yn gweithredu ar hyn o bryd. Atodwyd

copi o fersiwn ddiweddaraf y Polisi drafft i'r adroddiad er gwybodaeth yr aelodau. Rhoddodd y Pennaeth Addysg drosolwg byr o'r cefndir a oedd wedi arwain at y penderfyniad i adolygu'r polisi yn 2014, a'r adolygiad presennol dilynol o'r Polisi. Dywedodd eu bod wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ar elfennau o'r Polisi diwygiedig i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion sy'n llywodraethu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn ogystal â deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â diogelu a lles. Dywedodd y Pennaeth Addysg a swyddogion eraill wrth aelodau fod y Polisi diwygiedig, cyn bodedd a bod hynny'n bosibl yn rhesymol, yn ystyried y pwyntiau a godwyd yn flaenorol gan gynghorwyr a rhieni yn ystod gweithrediad y polisi yn dilyn adolygiad 2014, gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, y berthynas agos rhwng ysgolion cynradd 'bwydo' a'u hysgolion uwchradd cysylltiedig, y polisi llwybrau peryglus i'r ysgol, polisi teithio dewisol a hefyd hygyrchedd y broses apeliadau ar gyfer rheini/ gwarcheidwaid.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau dywedodd yr Aelod Arweiniol, y Pennaeth Addysg, y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidd a'r Rheolwr Adnoddau a Chymorth Addysg (Cynllunio ac Adnoddau) fod:

- y Cyngor o'r farn ei bod yn bwysig cael cyngor cyfreithiol ar gynnwys y polisi drafft cyn ymgynghori â'r cyhoedd ar y cynigion oedd wedi eu cynnwys ynddo,
- Caniatáu rhieni/ gwarcheidwaid i gwrdd â swyddogion fel rhan o'r broses Apeliadau wedi bod yn hynod ddefnyddiol. Byddai trafodaethau gyda rhieni/ gwarcheidwaid yn cael eu cynnwys rŵan yn y polisi mewn berthynas â 'darpariaethau dewisol', gan mai yn ystod trafodaethau o'r fath a sgyrsiau wyneb i wyneb yr oedd amgylchiadau unigol yn cael eu harchwilio a'u deall yn gywir;
- roedd y term 'ysgol addas agosaf' yn cynnwys cludiant i ysgolion ffydd y tu allan i'r sir os mai honno oedd ysgol ffydd agosaf y disgybl;
- roedd barn gyfreithiol eisoes wedi'i derbyn ar rai elfennau o'r polisi diwygiedig, roeddem yn dal i aros am gyngor yr ymgynghorydd cyfreithiol ar elfennau eraill. Roedd y farn a dderbyniwyd hyd yma yn ffafriol;
- prif nod y polisi diwygiedig oedd sicrhau fod y disgyblion cywir yn derbyn y cludiant yr oed ganddynt yr hawl i'w dderbyn i'w 'hysgol agosaf briodol'. Unwaith y pennwyd hynny, gellid rhoi ystyriaeth i geisiadau cludiant gostyngol, gan gynnwys cyfathrebu clir gyda rhieni/ gwarcheidwaid y disgyblion y dyfarnwyd cludiant gostyngol iddynt ar yr amser y dyfarnwyd y cludiant gostyngol;
- byddai asesiad effaith yn cael ei chynnal ar bob cais am drefniadau teithio, statudol a dewisol;
- byddai'r polisi yn mynd i'r afael ag unrhyw anghysonderau a ddaeth i'r amlwg o dan yr adolygiad blaenorol h.y. perthnasau wedi eu hen sefydlu gydag ysgol uwchradd fel 'ysgol fwydo' er mwyn peidio â chael effaith negyddol ar ysgolion penodol a'u disgyblion;
- Byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud i ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus ar y polisi diwygiedig yn ystod y tymor er mwyn sicrhau y byddai cyfle digonol i bob budd-ddeiliad i gyflwyno eu barn;
- Fel rhan o'r broses ymgynghori, byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal i drafod y polisi diwygiedig bwriedig gydag unrhyw barti cysylltiedig h.y. Fforwm Llywodraethwyr Ysgol, Cynhadledd Penaethiaid; pob llywodraethwr ysgol ac ati. Byddai cyfeiriad at y polisi diwygiedig yn cael ei gynnwys yn y

- Newyddlen Addysg newydd a drefnwyd i'w dosbarthu i rieni yn fuan yn y flwyddyn newydd;
- amlinellwyd yr amserlen ar gyfer y broses adolygu polisi, gan gynnwys y cyfnod ymgynghori yn yr adroddiad. Rhagwelwyd y byddai'r cam ymgynghori cyhoeddus yn dechrau'n fuan yn y flwyddyn newydd gyda'r bwriad o gwblhau'r polisi yn ystod rhan gyntaf yr haf ac i'r Cyngor ei gymeradwyo ym mis Medi 2017 i'w weithredu ym mis Medi 2018;
  - Cydnabuwyd y byddai effaith ar gyllideb y Cyngor unwaith y byddai'r polisi diwygiedig yn cael ei weithredu. Roedd ymrwymiad statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant i'r ysgol i'r disgylion hynny a oedd yn gymwys i'w gael, gan gynnwys disgylion gydag anghenion addysgol arbennig (AAA), felly byddai'n rhaid dod o hyd i unrhyw gyllid ychwanegol;
  - roedd yn hanfodol i gael y polisi yn iawn i alluogi cyfrifiadau cywir o'r gyllideb oedd ei hangen mewn gwirionedd i'w ddarparu;
  - os oedd gan unrhyw un bryderon mewn perthynas ag a oedd unrhyw ysgolion yn darparu'r cwricwlwm yn unol â'r dynodiad categori, dylai'r pryderon hynny gael eu codi gyda'r Gwasanaeth Addysg i'w alluogi i ymchwilio iddynt.

Cyn cwblhau'r drafodaeth, diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Arweiniol a swyddogion am yr holl waith oedd wedi'i wneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gyda'r bwriad o ddatblygu polisi teg a chyflawn. Roedd o'r pwysigrwydd mwyaf i gydbwys o'r gyllideb gydag ymrwymiadau statudol y Cyngor. Gan gydnabod y byddai bob amser rhyw anghysonderau pan oedd y rheolau'n cael eu gweithredu dywedodd fod y Pwyllgor wedi eu calonogi gan y ffaith y byddai trafodaethau'n cael eu cynnal gyda rhieni/gwarcheidwaid disgylion unigol a oedd yn apelio yn erbyn penderfyniadau, neu a oedd yn cysylltu â'r Cyngor yn cwestiynu eu hawl. Pwysleisiodd yr angen i bob cynghorydd sir i gael eu briffo ar y polisi diwygiedig cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus arno. Felly:

**PENDERFYNODD y Pwyllgor:** -

- (i) yn amodol ar y sylwadau uchod i gefnogi'r cynnig i fwrr ymlaen â'r cyfnod ymgynghori maes o law, unwaith roedd barn y cynghorydd cyfreithiol wedi ei dderbyn ar bob agwedd ar y polisi diwygiedig a gyfeiriwyd ato/ati am gyngor; a
- (ii) cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, dylid cyfeirio'r polisi drafft yn ôl i'r Pwyllgor i roi cymeradwyaeth i ymgynghori.

## RHAN 1

### 6 RHEOLI DŴR A LLINIARU LLIFOGYDD

Croesawyd Mr Keith Ivens, Rheolwr Gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Uwch Beiriannydd y Cyngor - Rheoli Perygl Llifogydd i'r cyfarfod gan y Cadeirydd i hwyluso trafodaeth ar reoli dŵr a mesurau lliniaru llifogydd yn Sir Ddinbych. Yn ystod y drafodaeth, cododd yr aelodau nifer o bryderon mewn perthynas â chynnal afonydd, nentydd, ffosydd a llifoedd, gan holi pwy oedd yn gyfrifol am eu cynnal a'u clirio.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, dywedodd y ddau swyddog:

- gweithiodd yr awdurdod lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru yn agos gyda'i gilydd i lliniaru risg i fywyd ac eiddo rhag llifogydd o 'brif' afonydd;
- Rhestir gwaith cynnal a chadw a gynnuniwyd ar bob prif afon a chwrs dŵr dan oruchwyliaeth CNC ar 'Rhaglen Cynnal a Chadw Arferol Gogledd Cymru 2016/17' ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru
- Lluniwyd amserlenni cynnal a chadw Cyfoeth Naturiol Cymru yn seiliedig ar asesiad risg a dyraniad cyllideb sydd ar gael. Mae gwaith modelu eisoes wedi cael ei raglennu ar gyfer 2017-18 er mwyn deall a ellid gwella isadeiledd a threfnau cynnal a chadw Ffos y Rhyl. Fodd bynnag, nid oedd Ffos y Rhyl yn cael ei hystyried yn ardal lle'r oedd perygl mawr ar hyn o bryd, gan fod tri phwynt allanfa ar gyfer dŵr o'r Ffos, gan gynnwys Gorsaf bwmpio a leolir yno;
- Roedd yr arwyddion yn awgrymu fod cynnydd mewn cyfnodau o law trwm iawn yn y blynnyddoedd diwethaf ac roedd hyn yn dod yn anodd i'w ragweld a'i reoli mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw cyrsiau dŵr;
- Roedd cyfrifoldeb am oruchwyllo gwaith cynnal a chadw cyrsiau dŵr ar draws Cymru yn cael ei bennu gan ddynodiad pob cwrs dŵr. Roedd CNC yn gyfrifol am oruchwyllo 'prif afonydd' - roedd y rhain yn cynnwys prif afonydd / afonydd mawr, nentydd a rhai cyrsiau dŵr llai. Mae pob cwrs dŵr agored arall, a elwir yn 'gyrsiau dŵr arferol', yn cael eu goruchwyllo gan yr awdurdod lleol yn ei gymhwyster a'r 'Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol'. Roedd gwybodaeth am ddynodiadau cyrsiau dŵr ar gael ar wefan CNC;
- Dyrannwyd cyllideb i CNC a oedd 'wedi'i glustnodi' at ddibenion cynnal a chadw 'prif afonydd' at ddibenion dyfrhau ac er mwyn lliniaru'r perygl o lifogydd ar yr afonydd hynny. Roedd yn rhaid i awdurdodau lleol (awdurdodau llifogydd lleol arweiniol) ariannu unrhyw waith Rheoli Perygl Llifogydd o'i gyllideb nad oedd wedi'i glustnodi;
- Er bod gan CNC, awdurdodau lleol a thirfeddianwyr lleol ddyletswyddau mewn perthynas â rheoli dŵr a'r perygl o lifogydd, rhannwyd y rhain yn ddau categori - cyfrifoldebau ac awdurdodaeth. Roedd dyletswyddau a oedd yn perthyn i'r categori cyntaf yn rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol ar berchen nog glan yr afon i wneud gwaith lliniaru/ rheoli dŵr. Er bod gan CNC ac awdurdodau lleol rymoedd deddfwriaethol i wneud gwaith ar gyrsiau dŵr, nid oes unrhyw ymrwymiad arnynt i wneud hynny;
- Roedd cyllid cyfalaf a ddyrannwyd i CNC yn tueddu i fod tuag at waith lliniaru llifogydd lle'r oedd perygl mawr e.e. gwaith lliniaru llifogydd, ond roedd cyllid refeniw yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith atal llifogydd/ cynnal a chadw afonydd;
- Roedd dyletswyddau perchnogion glannau afonydd mewn perthynas â chyrsiau dŵr yn unol â Deddf Draenio Tir 1991, yn ymestyn i sicrhau nad oedd llif dŵr drwy'r tir yn cael ei atal.
- Roedd yr or saf bwmpio ger Gwersyll Gwyllau Lyons yn y Rhyl a fethodd yn ystod y digwyddiad glaw trwm yn haf 2016 yn eiddo i Ddwyr Cymru ac nid CNC.

Roedd y Cyngor wedi cysylltu â Dŵr Cymru i ofyn am sicrwydd ynglŷn â dibynadwyedd y pwmp hwn;

- Prif ganolbwyt gwaith CNC oedd cyflawni gwaith lliniaru a rheoli llifogydd lle'r oedd bygythiad i fywyd neu eiddo. Os byddent yn dod o hyd i broblemau nad oedd yn peryglu bywyd neu eiddo, byddent yn rhoi gwylod i berchennog glan yr afon am y broblem. Mae gan CNC ddogfen ganllaw sydd ar gael i berchnogion glannau afonydd, a hyrwyddwyd yn eang drwy'r undebau ffermio. Roedd y Cyngor hefyd mewn cyswllt rheolaidd gyda thirfeddianwyr ar faterion o berygl neu bryder;
- Cynhaliwyd astudiaeth gan CNC yn edrych ar effeithiolrwydd posibl 'rheoli perygl llifogydd' h.y. yn nalgylch yr afonydd Elwy a Chlwyd. Un enghraifft o reoli perygl llifogydd naturiol yw'r gwaith ar y cyd rhwng CNC a Choed Cymru, lle plannwyd coed gyda'r bwriad o leihau cyfaint y dŵr a oedd yn llifo i lawr yr afon ac arafu ei llif. Casgliad yr astudiaeth oedd bod cyfleoedd am reoli perygl llifogydd naturiol yn eithaf cyfyngedig ar ddalgylchoedd Elwy a Clwyd.
- er y cydnabuwyd ers tro fod coedwigo yn ddull effeithiol i leihau'r dŵr a oedd yn llifo i lawr yr afon ac i arafu llif y dŵr, roedd ymchwil diweddar yn awgrymu na fyddai torri coed ar raddfa fechan, fel yr hyn a fwriadwyd ei wneud yn ardal Coedwig Clocaenog ger Cyffylliog er mwyn codi tyrbinau gwynt, yn cael effaith andwyol hirdymor ar lefelau afonydd a llif dŵr yn yr ardal honno nac ymhellach i lawr yr afon. Roedd Aelodau'n amheus o'r dybiaeth hon;
- nid oedd unrhyw fesurau 'gwyrddu', tebyg i'r rhai a dreialwyd yng ngogledd Lloegr lle'r anogwyd ffermwyr i beidio â charthu ffosydd nac agor ffosydd newydd gyda'r bwriad i lliniaru perygl llifogydd, wedi eu cymryd yn Sir Ddinbych;
- gallai cynlluniau tebyg i gynllun Ffermwyr Pontbren yn ardal Llanfair Caereinion yng ngogledd Powys fod yn fuddiol mewn ardaloedd eraill at ddibenion amaeth, bioamrywiaeth, rheoli dŵr a lliniaru llifogydd;
- ar gyfer datblygiadau tai ar raddfa fawr, roedd yn ofynnol i ddatblygwyr, fel rhan o'r cais cynllunio, arddangos na fyddent yn cynyddu cyfradd llif dŵr arwyneb mewn cyrsiau dŵr ac ati. Yn gyffredinol, mae datblygwyr yn dueddol o wneud cais i Ddŵr Cymru am ganiatâd i gysylltu â'r system garthffosydd lleol. Caniatawyd hyn lle bo hynny'n 'ymarferol'. Pe na bai gallu yn y system garthffosydd, roedd y datblygwyr yna'n tueddu i wneud cais cynllunio am waith trin preifat, ac roedd hwn yn ddull yr oedd CNC yn dueddol o'i ystyried yn anffafriol;
- Roedd CNC yn barod i drafod gyda thirfeddianwyr am unrhyw gynlluniau oedd ganddynt i garthu neu reoli cyrsiau dŵr ar eu tir. Roedd angen trwyddedau er mwyn gwneud y math hwn o waith. Fodd bynnag, roedd y broses o geisio am drwyddedau yn gymharol hyblyg a gallai ganiatâu cais am drwyddedau cyfnodol e.e. trwydded garthu/ cynnal a chadw blynnyddol;
- Ni fyddai CNC fel arfer yn tynnu gwrthrychau / pethau dieithr o afonydd oni bai eu bod yn peryglu bywyd neu eiddo, neu berygl ar unwaith o lifogydd;
- ni fyddai CNC fel arfer yn gorfodi tirfeddianwyr i wneud gwaith cynnal a chadw ar gyrsiau dŵr oni bai fod perygl i fywyd neu eiddo. Os penderfynwyd fod perygl o'r fath, gallai CNC fynd ar y tir i wneud y gwaith a lleihau'r risg, ac yna wedi hynny godi tâl ar y tirfeddiannwr am y gwaith a wnaed. Hyd gwylodaeth y cynrychiolydd nid oedd y dull gweithredu hwn wedi ei ddefnyddio yn y blynnyddoedd diwethaf;
- roedd pryderon iechyd a diogelwch yn ymwneud ag adeileddau pontydd, hyd yn oed os oedd y pwysau arnynt yn sgil llif dŵr, yn fater i'r awdurdod lleol nid CNC gan mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol oedd adeileddau fel pontydd; a

- rhagwelwyd y byddai penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, yn y tymor hir, yn cael effaith niweidiol ar gyllid CNC ar gyfer prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr, gan fod pob cynllun lliniaru llifogydd / amddiffynfeydd môr diweddar wedi cael eu darparu yn bennaf gyda chyldid Ewropeaidd;

Gofynnodd aelodau i:

- Pryderon a godwyd mewn perthynas â dŵr ffo o ardaloedd ag arwyneb caled i ffosydd lleol yn ardal Gallt Melyd unwaith y byddai datblygiadau yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDL) yn cael eu codi gan swyddogion CNC yn eu cyfarfod gweithredol nesaf;
- dylai swyddogion CNC a'r Cyngor gyfarfod gyda chyngorwyr sir yn ardal y Rhyl a Phrestatyn i drafod pryderon mewn perthynas â pheryglon llifogydd yn yr ardal leol; a
- yn sgil y cymhlethdodau yn yngylch materion sy'n ymwneud â dŵr a rheoli perygl llifogydd, gan gynnwys dyletswyddau a chyfrifoldebau gwahanol sefydliadau mewn perthynas â chyrsiau dŵr ac adeileddau sy'n croesi afonydd ac ar lannau afonydd, ni ellir rhoi cyflwyniad i bob cyngorydd sir yn ystod sesiwn Frifio'r Cyngor ar bob un o'r agweddau hyn. Awgrymwyd, er mwyn ei gwneud yn haws i gyfeirio ato y dylai darluniau gael eu defnyddio i egluro'r gwahanol gyfrifoldebau, ac esiamplau a ddefnyddir i amlygu sut y mae pob budd-ddeiliaid yn cydweithio i osgoi rhag i sefyllfaoedd ddatblygu i fod yn achosion difrifol;

Diolchodd y Cadeirydd i'r ddua swyddog am fod yn bresennol ac am ateb cwestiynau'r aelodau. Roedd yn teimlo fod gan y Cyngor ran i'w chwarae wrth gyfathrebu eglurder am swyddogaeth bob budd-ddeliad unigol mewn perthynas â gwaith rheoli dŵr a lliniaru llifogydd. Felly:

**PENDERFYNWYD: - bod:**

- (i) *Cyflwyniad yn cael ei roi yn ystod cyfarfod Briffo'r Cyngor ar yr etholiadau awdurdod lleol ym mis Mai 2017 at ddibenion cynorthwyo cynghorwyr i ddeall cyfrifoldebau statudol y Cyngor Sir, fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, a Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â rheoli dŵr a llifogydd, gan gynnwys cyfrifoldebau cynnal a chadw arfordirol ac afonydd, a sut y mae'r ddua sefydliad yn cydweithio i lliniaru risgiau llifogydd; ac*
- (ii) *Yn y cyfamser, dylid paratoi a chyflwyno datganiad i'r wasg i'w gynnwys yn atodiad 'Farm and Country' y Daily Post ar sut y gall perchnogion glannau afonydd ymgeisio am drwyddedau i wneud gwaith cynnal a chadw o bryd i'w gilydd ar gyrsiau dŵr sy'n croesi eu tir.*

7

## RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (CA), a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol ac a oedd yn rhoi diweddarriad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o 'ffurflen gynnig Aelodau' wedi ei chynnwys yn Atodiad 2. Gofynnodd y Cydlynnydd Archwilio i unrhyw gynigion gael eu cyflwyno iddi hi. Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi

crynodeb o'r penderfyniadau Pwyllgor diweddar ac a oedd yn hysbysu'r Aelodau ynglŷn â'r cynnydd gyda'u gweithrediad, wedi'i gynnwys yn Atodiad 4.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddrafft o'i Raglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

- Gwahodd Prif Gwnstabl yr Heddlu i ddod i Gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhelir ar 2 Chwefror 2017.
- Ychwanegu adroddiad drafft Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol i gyfarfod 2 Chwefror 2017.
- Symud Cynllun Gweithredu Gwylanod drafft o gyfarfod mis Chwefror i Raglen 23 Mawrth 2017.
- Symud effaith y cynnydd mewn taliadau parcio ceir ledled y sir a'r Cynllun Rheoli Asedau Meysydd Parcio drafft o gyfarfod mis Mawrth i raglen 15 Mehefin 2017.

**PENDERFYNWYD** - yn amodol ar y newidiadau a'r cytundebau uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Nid oedd unrhyw adroddiadau wedi dod i law.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:55am

|                          |                                                           |
|--------------------------|-----------------------------------------------------------|
| Adroddiad i'r:           | Pwyllgor Archwilio Cymunedau                              |
| Dyddiad y Cyfarfod:      | 2 Chwefror 2017                                           |
| Aelod/Swyddog Arweiniol: | Aelod Arweiniol Addysg / Pennaeth Addysg                  |
| Awdur yr Adroddiad:      | Pennaeth Addysg                                           |
| Teitl:                   | Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Drafft Sir Ddinbych |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Diweddariad ar yr adolygiad o Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Caniatáu'r Aelodau i ystyried y newidiadau arfaethedig i'r Polisi.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

3.1 ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn rhoi sylwadau yn unol â hynny;

3.2 cefnogi'r ymagwedd a amlinellwyd yn y polisi drafft newydd; a

3.3 cefnogi symud ymlaen i'r cam ymgynghori, gan gynnal yr Asesiad Effaith Lles cyn hynny.

## 4. Manylion yr adroddiad

### 4.1 Cefndir

4.1.1 Darparodd yr Adroddiad Archwilio Cymunedau ar 30 Mehefin 2016 y cefndir llawn yngylch gweithredu Polisi Cymhwysedd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol cyfredol Sir Ddinbych (Medi 2015). Amlygodd hefyd yr her Adolygiad Barnwrol a gafwyd ym mis Tachwedd 2015 ac ymateb yr Awdurdod.

4.1.2 Fel rhan o weithredu Polisi 2015, gofynnodd yr Aelodau am gynnwl adolygiad ar ôl 12 mis i asesu goblygiadau newid polisi. Mae'r adolygiad hwn wedi'i wneud ac mae Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol drafft newydd ar gael i ymgynghori arno. Dangosir hwn yn Atodiad 1.

4.1.3 Mae'r polisi drafft newydd hwn wedi mynd i'r afael â phryderon a fynegwyd eisoes gan Aelodau, rhieni a swyddogion. Mae hefyd yn cynnwys canllaw a ddarparwyd gan gwnsel cyfreithiol allanol mewn perthynas â her yr Adolygiad Barnwrol, yn ogystal â chanllawiau a ddarparwyd ar y drafft newydd. Mae geiriad y polisi wedi cael ei adolygu i sicrhau eglurder a'i fod yn adlewyrchu'r Mesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn iawn (y cyfeirir ato wedi hyn fel 'y Mesur').

4.1.4 Gofynnwyd am gwnsel cyfreithiol hefyd er mwyn sicrhau bod y polisi drafft yn ategu at Bolisi Derbyniadau Ysgolion Sir Ddinbych, ac yn darparu cysondeb o ran ymagwedd. Mae'r canllawiau hyn bellach wedi cael eu cynnwys yn y drafft.

#### 4.2 Prif Newidiadau i Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Sir Ddinbych

4.2.1 Mae'r drafft newydd yn cynnwys y prif egwyddorion a'r dyletswyddau yn y Mesur. Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried y materion sydd wedi codi ers gweithredu Polisi cyfredol 2015. Mae hyn wedi arwain at nifer o ychwanegiadau allweddol i'r drafft newydd sydd wedi eu hamlinellu yma.

4.2.2 **Ysgolion Porthi (Adrannau 2.4 a 3.4)** – O fewn y Mesur mae angen i Awdurdodau Lleol ddarparu cludiant i'r 'ysgol addas agosaf' os yw disgyblion yn cwrdd â'r mein prawf pellter a nodwyd:

- Disgyblion ysgolion cynradd os ydynt yn byw ymhellach na 2 filltir oddi wrth ysgol; neu
- Ddisgyblion ysgolion uwchradd os ydynt yn byw ymhellach na 3 filltir oddi wrth ysgol.

O fewn Sir Ddinbych, cydnabyddir bod yna rai ysgolion penodol sydd â pherthnasau agos â'r ysgolion uwchradd maent yn eu porthi. Mae cadw at yr ysgol addas agosaf yn y polisi cyfredol, mewn rhai ardaloedd, wedi codi pryderon ac o bosibl wedi gweithio yn erbyn rhai o'r perthnasau porthi hyn.

Felly yn y drafft newydd, bydd ceisiadau ar gyfer cludiant ysgol i ysgolion uwchradd yn seiliedig ar yr ysgol addas agosaf neu os oedd y disgybl yn mynchy ysgol borthi Gynradd ddynodedig. Bydd cludiant ar sail porthi yn cael ei ddarparu o dan drefniadau dewisol.

Mae'r trefniant hwn dal yn ddibynnol ar ddiwallu'r mein prawf pellter yn y Mesur. Nodir bydd cludiant ysgol i Ysgolion Cynradd yn parhau i gael ei wneud ar sail yr ysgol addas agosaf yn unig. Mae'n rhaid i Gludiant Ysgol i ysgolion uwchradd a wnaed dan drefniadau porthi hefyd basio'r prawf 'rhesymolwydd' - sydd fel a ganlyn: rhai i ddisgyblion:

- **Fod wedi bod yn mynchy eu hysgol gynradd addas agosaf o'u lleoliad cartref fel yr aseswyd yn y pwynt derbyn.**
- **Cyfarfod y mein prawf pellter yn y Mesur ar gyfer ysgolion uwchradd.**
- **Os yw dysgwyr yn symud tŷ cyn dechrau'r ysgol uwchradd, bydd angen ail-asesu eu hawl, yn ôl y mein prawf a ddangosir yn adran 2.**
- **Mewn achosion lle nad yw dysgwyr wedi mynchy eu hysgol gynradd addas agosaf yn ôl dewis y rhiant/ gofalwr, ni fydd adran 3.4 yn berthnasol. Bydd ceisiadau am gludiant ysgol wedyn yn cael eu hasesu yn seiliedig ar yr ysgol Uwchradd addas agosaf yn unig.**

Dangosir y perthnasau porthi rhwng ysgolion yn atodiad y Polisi. Mae'r Atodiad hwn hefyd yn dangos unrhyw ysgolion addas agosaf eraill, yn ogystal â statws Iaith Gymraeg a Ffydd yr holl ysgolion.

- 4.2.3 **Mannau Codi a Llwybrau Peryglus (Adrannau 2.9 a 2.10)** – Yn dilyn yr her adolygiad barnwrol, eglurwyd y defnydd o fannau codi mewn perthynas â llwybrau peryglus gan gwnsler cyfreithiol. Cyfarwyddodd y canllaw hwn ymagwedd yr Awdurdod yn uniongyrchol tuag at fynd i'r afael â'r materion a godwyd o dan drefniadau dewisol. Mae'r canllaw hwn ar hyn o bryd yn eistedd ochr yn ochr â'r polisi cyfredol ac fe'i dangosir yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. Mae'r canllaw hwn bellach wedi cael ei amsugno i'r drafft newydd er mwyn sicrhau bod ymagwedd yr Awdurdod yn glir a thryloyw.
- 4.2.4 **Darpariaethau Dewisol (Adran 3.11)** – Mae'r adran sy'n ymwneud â threfniadau dewisol wedi cael ei gryfhau i sicrhau ei fod yn glir o ran pryd y gellir defnyddio doethineb. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'r broses Apeliadau ac fe'i dyluniwyd i sicrhau bod rhieni/ gofalwyr yn amlygu eu sefyllfaoedd ac amgylchiadau personol fel y gellir eu hystyried yn ystod yr apêl.
- 4.2.5 **Apeliadau (Adran 7)** – Mae'r amserlen ar gyfer apelio wedi cael ei newid er mwyn sicrhau bod holl elfennau'r apêl wedi cael eu hymchwilio. Bydd yr hyd amser estynedig hwn hefyd yn caniatáu panel o swyddogion annibynnol, o du allan i Cefnogaeth Addysg, i gyfarfod ac i wneud penderfyniad terfynol. Cynigir hefyd i roi cyfle i rieni fynychu'r apêl i ddarparu eu gwybodaeth, neu gallant gyflwyno eu tystiolaeth gefnogol ar ffurf ysgrifenedig.

#### 4.3.6 Newidiadau Sylweddol Eraill:

**Mesur Pellter (Adran 2.5)** – Mae yna bellach fwy o eglurder ynglŷn â sut y caiff y pellter o'r cartref i'r ysgol ei fesur a sut y defnyddir y meini prawf.

**Dewis Ysgol Rhieni/ Gofalwyr (Adran 2.7)** – Cryfhau'r datganiadau sy'n sicrhau bod rhieni/ gofalwyr yn ystyried goblygiadau cludiant ysgol cyn mynegi ffafriaeth am le mewn ysgol trwy'r broses Dderbyniadau.

**Cludiant ar gyfer Plant ADY a Phlant sy'n Derbyn Gofal (Adrannau 2.11 a 2.12)** - Mwy o eglurder ynghylch y trefniadau dewisol i gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol a Phlant Sy'n Derbyn Gofal.

**Preswyliaeth Ddeuol (Adran 2.13)** - Mae'r adran hon wedi cael ei haralleirio.

**Cludiant ôl-16/ Rhwydwaith dysgu 14-19 (Adran 3.5. a 3.6)** – Mae'r geiriad wedi cael ei newid ychydig i adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith yn well.

**Rheoli Trosglwyddiadau Ysgolion (Adran 3.9)** – Cafodd yr adran hon ei newid i sicrhau bod y rhiant/ gofalwr wedi ymgysylltu gyda'r ysgol cyn ystyried yr opsiwn o drosglwyddo. Rhaid bod tystiolaeth ar gael oddi wrth y gweithwyr proffesiynol priodol i alluogi'r Awdurdod i wneud penderfyniad ynglŷn â chludiant o'r cartref i'r ysgol.

**Darpariaeth Cludiant (Adran 6)** - Mae'r adran hon wedi cael ei haralleirio gan Cludiant Teithwyr a Chefnogaeth Addysg er mwyn sicrhau eglurder.

Mae ymddygiad ar gludiant wedi cael ei gryfhau. Mae'n cynnwys yn benodol ddatganiad bod disgwyl i rieni/ gofalwyr gefnogi'r Awdurdod, ysgolion, gweithredwyr cludiant a staff i gadw ymddygiad da ar wasanaethau'r Cyngor. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys manylion am Fonitro'r Gwasanaeth, a fydd yn sicrhau bod y rhai hynny sy'n teithio yn gymwys.

**Dolenni Cyswllt i Ddogfennaeth Berthnasol (Adran 9)** – Mae'r adran newydd hon wedi cael ei datblygu i gyfeirio darllenwyr at wefannau perthnasol sy'n cynnwys y ddeddfwriaeth a'r canllawiau.

**Cod Ymddygiad ar gyfer Teithio ar Fysus Ysgol (Atodiad 2)** – Darperir manylion am y fenter Llywodraeth Cymru hon a chanllawiau yn yr Atodiad.

#### 4.3.7 Cludiant i Ysgolion Cymraeg ac Ysgolion Ffydd

Fel gyda'r polisi cyfredol, bydd yr Awdurdod yn parhau i ddarparu cludiant i'r ysgol Gymraeg neu Ffydd addas agosaf, os mai hyn yw dewis y rhieni/ gofalwyr. Gwneir hyn o dan y trefniadau dewisol yn Adran 3.

### 4.4 Goblygiadau Cyllidebol

4.4.1 Mae Cefnogaeth Addysg yn gweithio gyda Chludiant Teithwyr ar oblygiadau cost y drafft newydd, yn enwedig y trefniadau ysgolion porthi arfaethedig. Fodd bynnag, fel soniwyd mewn adroddiadau Archwilio blaenorol, mae sicrhau bod y gyllideb cludiant ysgol wedi'i graddio'n gywir i ddiwallu'r gofynion statudol yn bwysig iawn. Mae'r rhagamcanion o'r pwysau cyllideb ar gyfer 2016/17 oddeutu £300k.

### 4.5 Adolygu Polisi – y Camau Nesaf

4.5.1 Mae'r amserlen ddiwygiedig i'w gweld isod. Bydd angen cwblhau'r adolygiad o'r polisi yn llawn a'i ddilysu 12 mis cyn ei weithredu.

- **Cyflwyno'r Polisi newydd i'r pwylgor Archwilio 2 Chwefror 2017**
- **Cwblhau'r asesiad affaith lles erbyn Mawrth 2017**
- **Ymgynghori gyda'r holl randdeiliaid o fis Mawrth 2017**
- **Gorffen y Polisi newydd erbyn Mehefin/ Gorffennaf 2017**
- **Dilysu'r Polisi gan y Cyngor erbyn Medi 2017**
- **Gweithredu'r Polisi newydd o fis Medi 2018.**

4.5.2 Gwerthfawrogir bod yn rhaid i'r iaith yn y drafft newydd adlewyrchu'r iaith a ddefnyddir yn y Mesur; fodd bynnag, mae Cefnogaeth Addysg am ddatblygu adran Cwestiynau Cyffredin a dydd yn mynd law yn llaw gyda'r polisi newydd hwn. Bydd hyn yn cael ei gyfarwyddo gan ganlyniadau'r ymgynghoriad. Efallai bydd hyn hefyd yn cynnwys senarios 'go iawn' sy'n adlewyrchu sut bydd y polisi yn cael ei gymhwys fel y gall darllenwyr ddeall ei ofynion yn hawdd. Fel rhan o'r broses hon, byddai safbwytiau'r pwylgor Archwilio yn cael eu croesawu.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r gwasanaethau a ddisgrifir yma oll yn gefnogol i flaenoriaeth "Gwella Addysg".

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r goblygiadau cyllidebol yn cael eu hymchwilio. Mae disgwyliad bydd cost y gwasanaeth yn cynyddu i ddiwallu'r rhwymedigaethau statudol o dan Mesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r newidiadau yn y polisi.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Bydd yr Asesiad Effaith ar Les yn cael ei symud ymlaen ym mis Chwefror yn barod ar gyfer ymgynghori ehangach ym mis Mawrth.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Yr adroddiad Archwilio yw'r ail ymgynghoriad gydag Aelodau ynglŷn â'r drafft newydd. Mae ymgynghori gyda'r holl randdeiliaid perthnasol wedi'i gynllunio yn unol â'r llinell amser a ddangosir yn 4.5.1.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Cytunodd yr Aelodau Etholedig i adolygu'r Polisi Cludiant yn y Gweithdy Rhyddid a Hyblygrwydd i Aelodau a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2014. Mae'r broses a grybwylir yma yn estyniad o'r gwaith hwn. Caiff trafodaethau yngylch priodoldeb y gyllideb cludiant ysgol hefyd eu mynegi fel rhan o'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Efallai bydd cyhoeddusrwydd drwg o ran diweddarwr Polisi hwn, er mai'r newidiadau yw egluro'r rhwymedigaethau o dan Fesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ac ymateb i'r materion a'r pryderon a amlygwyd yn flaenorol yn y polisi cyfredol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

- Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
- Adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n nodi grymoedd Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisi.

**Swyddog Cyswllt**

Rheolwr Adnoddau Addysg a Chymorth, Cynllunio ac Adnoddau

Ffôn: 01824 712692

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



## Appendix

**Denbighshire County Council**

**Home to School Transport Policy**

**Education and Children Services**

**Document Control**

***Document Amendment Record***

|           |                 |
|-----------|-----------------|
| Sept 2015 | Version 1       |
| Sept 2016 | Version 2 Draft |

## CONTENTS

|                                            | PAGE |
|--------------------------------------------|------|
| <b>1. INTRODUCTION</b>                     | 3    |
| <b>2. HOME TO SCHOOL TRANSPORT</b>         |      |
| 2.1 Qualifying Schools                     | 4    |
| 2.2 Distance Criteria                      | 4    |
| 2.3 Nearest Suitable School                | 4    |
| 2.4 Feeder Schools                         | 4    |
| 2.5 Measurement of Distance                | 4    |
| 2.6 Primary and Secondary School Transport | 5    |
| 2.7 Parental / Carer Preference of School  | 5    |
| 2.8 School Admissions                      | 6    |
| 2.9 Pick-up Points                         | 6    |
| 2.10 Hazardous Routes                      | 7    |
| 2.11 Additional Learning Needs (ALN)       | 7    |
| 2.12 Looked After Children (LAC)           | 8    |
| 2.13 Dual Residency                        | 8    |
| <b>3. DISCRETIONARY TRANSPORT</b>          |      |
| 3.1 Discretionary Arrangements             | 9    |
| 3.2 Faith Schools                          | 9    |
| 3.3 Welsh Medium Education                 | 9    |
| 3.4 Feeders School Arrangements            | 9    |
| 3.5 Post 16 Transport                      | 10   |
| 3.6 14-19 Learning Network                 | 10   |
| 3.7 School Reorganisation                  | 10   |
| 3.8 Moving Home                            | 10   |
| 3.9 Managed School Transfers               | 11   |
| 3.10 Withdrawal of Transport               | 11   |
| 3.11 Other Discretionary Provisions        | 11   |
| <b>4. MAKING AN APPLICATION</b>            |      |
| 4.1 When to make an application            | 13   |
| 4.2 How to apply                           | 13   |
| 4.3 Notification                           | 13   |
| 4.4 Changes during the school year         | 13   |
| 4.5 Parent Handbook                        | 13   |

## **1.0 INTRODUCTION**

- 1.1 Denbighshire County Council has a duty to provide school transport in accordance with Learner Travel (Wales) Measure 2008 and the Learner Travel: Statutory Provision and Operational Guidance 2014.
- 1.2 To meet this requirement the Authority will have regard to the following when making arrangements for learners who are ordinarily resident within Denbighshire:
  - The age of the learner
  - The distance from home to school
  - The nature of the route from home to school
  - Requests for Welsh or English medium education
  - Requests for Faith based education
  - The needs of learners with disabilities or additional learning needs
  - The needs of learners who are 'looked after' by the Local Authority
  - The needs of learners with dual residency
- 1.3 This list is not exhaustive and the Authority must consider each learners individual circumstances, taking into account any representations made by parents/carers and relevant professionals. In certain circumstances the Measure permits the Local Authority to apply discretion in relation to the services provided. These discretionary elements are outlined in section 3 of this policy.
- 1.4 The Authority must provide free home to school transport in certain circumstances. These are outlined in section 2. The duty to provide such transport only applies if a child is ordinarily resident in the Authority's area.
- 1.5 The Local Authority will endeavour to provide safe, efficient and cost effective transport to those learners who qualify under this policy at all times.
- 1.6 There may be circumstances where alternative provision would prove more cost effective than that provision stated in the policy. The Local Authority therefore reserves the right to apply discretion where appropriate if it can be demonstrated that the alternative is more cost effective and efficient.
- 1.7 Home to school transport is provided for eligible learners between their home address or allocated pick-up point, and the qualifying school where they are registered. Free transport is not provided from or to addresses of other family members or friends, parent's work addresses or child care facilities of any sort.
- 1.8 This Policy is effective from 1<sup>st</sup> September 2018. School transport arrangements assessed and provided under Denbighshire's previous policy will continue unless there is a material change in circumstances which would necessitate a new application being made, e.g. moving home or school. Details of how to make an application are outlined in section 4.

## **2. HOME TO SCHOOL TRANSPORT**

### **2.1 Qualifying Schools**

Denbighshire County Council will provide free transport to learners who meet the entitlement criteria set out in this policy. The policy refers to transport to and from qualifying schools in the following categories:

- a community, controlled, foundation or voluntary aided school
- a non-maintained special school
- a pupil referral unit
- an independent school named in a statement of special educational needs
- a voluntary aided trust school

### **2.2 Distance Criteria**

The Learner Travel (Wales) Measure stipulates that free transport will only be provided to learners of compulsory school age if the distance from home to their nearest suitable school is at least:

- (a) 2 miles for Primary School pupils
- (b) 3 miles for Secondary School pupils

### **2.3 Nearest Suitable School**

The nearest suitable school is a school that provides education appropriate to the age, ability, aptitude of the learner, and any learning needs that they may have. It will normally be a school in the area the learner resides, or another school (e.g. out of county) if this is closer to home.

Denbighshire residents can find their nearest local school by visiting the '[My Property](#)' link on Denbighshire's website homepage, or by visiting: [www.mylocalschool.wales.gov.uk](http://www.mylocalschool.wales.gov.uk)

### **2.4 Feeder Schools**

The Authority recognises that certain Primary schools are natural feeders for certain Secondary Schools. The relationships between these schools are shown in Appendix 1. Under discretionary arrangements the Authority may also provide free school transport to the designated secondary school, even if this is not the nearest suitable secondary school. Further information is shown in section 3.4 under Discretionary School Transport.

### **2.5 Measurement of Distance**

For assessments under the distance criteria in section 2.2, the calculation from home to school will adhere to guidance provided in the Learner Travel: Statutory Provision and Operational Guidance 2014. The route to school will be measured from the home boundary to the nearest school gate, and may

include footpaths, bridleways and other pathways, as well as adopted roads. It is not necessarily the shortest distance by road.

Where learners are reasonably expected to walk to school, the distance is measured by the shortest available route along which a child, accompanied as necessary by a responsible adult, may walk in reasonable safety; whilst having regard to the age and needs to the child. If the property is on an un-adopted road it will be measured from where the property meets the adopted highway or adopted path. All calculations of distance will be made using the Authority's chosen software package.

For assessments over the distance criteria mentioned in section 2.2, the distance from home to nearest suitable school will be measured along the shortest available road route, i.e. from the home boundary to the nearest school gate using the Authority's chosen software package. However, if the property is on an un-adopted road it will be measured from where the un-adopted road meets the adopted highway.

For all calculations the measurement of distance will be to the nearest 0.1 of a mile.

## **2.6 Primary and Secondary School Transport**

For Primary and Secondary Schools, the Authority will provide free transport to the nearest suitable school in line with the criteria of this policy. Discretionary provision may also apply, by virtue of the criteria shown in section 3.

## **2.7 Parental / Carer Preference of School**

Parents / carers have the right to express a preference for admission of their child to any school, subject to availability of places. If the application is accepted, the parent / carer loses their entitlement to free transport if it is not their nearest suitable school or, the designated secondary school for the primary feeder school they attended.

This is consistent with meeting the requirements as outlined in section 1.46 of the Learner Travel: Statutory Provision and Operational Guidance June 2014.

**IMPORTANT - Parents/ Carers are advised to consider the school transport implications before making an expression of preference for a school place. See section 2.3 on nearest suitable school.**

## **2.8 School Admissions**

If parents / carers have been unable to secure a place for their child at their nearest suitable school, or if their designated secondary school (from the appropriate feeder primary school) is full, then free transport will be provided to the next nearest suitable school, providing the distance criteria in section 2.2 is met.

## 2.9

### **Pick-up Points**

Denbighshire County Council considers that in general the provision of shared pick-up points can be part of a suitable transport arrangement within the meaning of section 3 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008.

For learners who qualify for transport there will be an expectation that they will depart from a pre-determined pick-up point, unless otherwise stated when the application is determined. The Authority will endeavour to locate pick-up points reasonably close from to learners' homes (no more than 3 miles) in the expectation that parents / carers will be able to make use of their designated pick-up point in order to ensure for their child a safe and timely journey to and from school. Any measurement of distance will follow the principals as outlined in section 2.5. The assessment will also have regard to hazardous routes, following the principals set out in section 2.10.

It is parental / carer's responsibility to ensure that their child reaches the pick-up point in a timely manner and that they board the vehicle safely. They must also ensure there is a responsible adult to meet their child on the return journey, if the age or needs of the child call for the provision of an escort.

If a responsible adult is not there to meet a child, whose age or needs call for the provision of an escort, then additional costs will be recharged, as it may be necessary for Officers to seek guidance from Children Services and, if required, arrange for the child to be taken to a Local Authority place of care.

**Note:** Nothing in this Policy creates an expectation that all children should walk to the pick-up points, as in some cases this will be inappropriate. If a parent / carer believes that the use of a pick-up point is not suitable for their child, they should bring their concerns to the attention of the Authority, which will then investigate the circumstances to determine whether the Authority needs to make any additional or alternative transport arrangements for that child. Additional or alternative arrangements can be made under section 3 and 4 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008. Discretionary arrangements may also be made under section 6 of the Measure.

The Local Authority reserves the right to review the pick-up points to ensure a safe route is maintained at all times and subject to ensuring the most cost effective provision is in place.

Once eligibility for school transport has been confirmed, Denbighshire's Passenger Transport department will contact parents / carers and provide details regarding the pick-up point used and the timings of the service.

## **2.10 Hazardous Routes**

For learners who live below the statutory qualifying distance shown in section 2.2, the Local Authority will provide transport to school if the route is deemed hazardous. Hazardous routes are assessed by an appropriate Denbighshire Road Safety Officer following the guidance provided in the Learner Travel: Statutory Provision and Operational Guidance June 2014.

